

Cyhoeddi rhestr fer Gwobrau'r Loteri Genedlaethol 2021 – pwy sy'n cael eich pleidlais chi?

15/09/2021



Plant yn mynychu digwyddiad Mackintosh in the Willow

Mae enwebiadau'n cydnabod prosiectau rhagorol a ariennir gan y Loteri Genedlaethol sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl a threftadaeth ledled y DU.

Ers 1994, mae'r Loteri Genedlaethol wedi codi mwy na £43biliwn ar gyfer achosion da. O hyn, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi dosbarthu dros £8.2bn i fwy na 48,000 o brosiectau treftadaeth ledled y DU.

Bob blwyddyn, mae Gwobrau'r Loteri Genedlaethol yn dathlu'r bobl a'r prosiectau ysbrydoledig sy'n gwneud pethau eithriadol gyda chymorth yr arian hwnnw gan y Loteri Genedlaethol. Mae dathlu'r cyflawniadau hyn yn bwysicach nag erioed yn wyneb yr heriau a ddaeth yn sgil y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r rhestr fer eleni yn cynnwys pedwar prosiect treftadaeth a ariennir gennym. Pa un sy'n cael eich pleidlais chi ar gyfer Prosiect y Flwyddyn y Loteri Genedlaethol?

Pollinating the Peak



Gwyddoniaeth dinasyddion Pollinating the Peak

Mae poblogaethau o gacwn wedi cwmpo yn y DU dros yr 80 mlynedd diwethaf oherwydd colli cynefinoedd, newid yn yr hinsawdd a phlaladdwyr. Mae prosiect uchelgeisiol Ymddiriedolaeth Bumblebee, Pollinating the Peak, sydd wedi'i leoli yn Swydd Derby, yn gweithio'n galed i adfywio eu niferoedd. Mae grant o £967,200 gan y Loteri Genedlaethol yn eu helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng cefn gwlad, bwyd a chacwn.

Mae gweithgareddau gan gynnwys arolygon gwyddoniaeth dinasyddion a phlannu blodau sy'n ystyriol o bryfed peillio yn ysbrydoli pobl i ofalu amdanynt a gofalu amdanynt.

Pleidleisiwch ar wefan [Achosion Da'r Loteri](#) neu drwy ddefnyddio #NLAPollinating ar Twitter.

Mackintosh at the Willow



Bwrdd wedi'i osod yn Mackintosh at the Willow

Mae Ystafelloedd Te Willow yn Glasgow – un o adeiladau mwyaf eiconig Charles Rennie Mackintosh – wedi'i adfer i'w ogoniant gwreiddiol diolch i £4,939,200 o arian gan y Loteri Genedlaethol. Mae Mackintosh at the Willow bellach yn 'amgueddfa fyw' a menter gymdeithasol, gan ddarparu cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli.

Agorodd yr ystafelloedd te ym mis Mehefin 2018 a, hyd yn oed gyda chyfyngiadau oherwydd y pandemig, croesawodd 500,000 o ymwelwyr yn ei ddwy flynedd gyntaf ar gyfer te prynhawn, arddangosfeydd a digwyddiadau.

Pleidleisiwch ar wefan [Achosion Da'r Loteri](#) neu drwy ddefnyddio #NLAMackintosh ar Twitter.

Reimagine, Remake, Replay



Realiti rhithwir – Reimagine, Remake, Replay

Dim ond 11% o ymwelwyr amgueddfeydd yng Ngogledd Iwerddon sy'n cynnwys pobl ifanc 16-25 oed. Mae'r prosiect Reimagine, Remake, Replay, dan arweiniad y Ganolfan Nerfol, yn helpu pobl ifanc i arwain y gwaith o wneud amgueddfeydd yn fwy perthnasol, hygyrch a phleserus iddynt. Gyda chymorth £949,600 o arian y Loteri Genedlaethol, nod y prosiect yw cysylltu â dros 4,000 o bobl ifanc.

Maent yn agor casgliadau saith amgueddfa yng Ngogledd Iwerddon drwy ddefnyddio technoleg arloesol, gan gynnwys sganwyr ac argraffwyr 3D, torwyr laser ac apiau. Parhaodd y prosiect yn ystod y cyfnod clo gyda digwyddiadau ar-lein gan gynnwys g?yl iechyd meddwl, cyrsiau ysgrifennu creadigol a dosbarthiadau ffotograffiaeth symudol.

Pleidleisiwch ar wefan [Achosion Da'r Loteri](#) neu drwy ddefnyddio #NLAReimagine ar Twitter.

Prosiect Cadwraeth a Threftadaeth Dyffryn Gwyrdd



Prosiect Cadwraeth a Threftadaeth Dyffryn Gwyrdd

Diolch i £10,000 o arian gan y Loteri Genedlaethol, mae safle Antur Organig Cwm Cynon wedi'i drawsnewid o dir diffaith i ardd gymunedol sy'n llawn pobl, natur a bywyd gwyllt. Mae'r ardd yn rhedeg ar hyd ymyl yr afon gydag ardal goetir wlyb, hen berllan, pwll mawr a nifer o fannau rhandiroedd sy'n tyfu bwyd ar gyfer eu banc bwyd. Adeiladwyd caffi a thoiled compost sy'n cael ei bweru gan yr haul hefyd.

Mae'n helpu pobl yr hen bentref glofaol hwn yng Nghymru i wella eu sgiliau cyflogadwyedd a'u llesiant drwy arddio a chysylltu â natur.

Pleidleisiwch ar wefan [Achosion Da'r Loteri](#) neu drwy ddefnyddio #NLAGreenValley ar Twitter.

Darganfyddwch fwy a bwrw'ch pleidlais heddiw

Ewch i wefan Achosion Da'r Loteri i weld y rhestr lawn o brosiectau ac i fwrw'ch pleidlais. **Bydd y pleidleisio'n cau ddydd Llun 4 Hydref am 5pm.**

Bydd enillwyr yn derbyn gwobr o £3,000 a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Oes gennych chi syniad prosiect?

Oes gennych chi syniad ar gyfer eich prosiect eich hun a allai wneud gwahaniaeth i bobl a threftadaeth yn y DU? Dysgwch fwy am [yr hyn rydym yn ei ariannu](#) a [chysylltwch â'ch tîm lleol](#) i drafod eich syniad ymhellach.



ddordeb hefyd mewn ...



[Y Loteri Genedlaethol vn rhoi mwv na £1biliwn i fynd i'r afael ag effaith COVID-](#)



[160-million-year-old crocodile skull. Credit: Bath Royal](#)



[y for first time](#)

[Pwll Penzance yn ennill Prosiect Cynaliadwy'r Flwyddyn yng Ngwobrau Amgueddfeydd + Treftadaeth](#)